



1. Yn EDF Renewables UK ein nod yw brwydro yn erbyn newid hinsawdd - rydym ni'n frwd dros greu dyfodol sero net lle mae ynni glân yn pweru ein bywydau. Mynd i'r afael â newid hinsawdd sy'n ein cymell – mae'n ein sbarduno i chwilio am y prosiectau cywir a'u dwyn ymlaen a datblygu'r atebion mwyaf creadigol ar gyfer cymunedau.
2. Mae gennym ni ymrwymiad hirsefydlog i gefnogi datblygiad ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Rydym ni'n bwriadu datblygu, adeiladu, gweithredu a chynnal 1GW o brosiectau arloesol ynni gwynt ar y tir, ynni solar a storio batris erbyn 2030. Yn ogystal, rydym ni wedi cyhoeddi menter ar y cyd yn y Môr Celtaidd, Gwynt Glas, a fydd yn cynhyrchu 1GW pellach o wynt arnofiol ar y môr gyda DP Energy.
3. O gynhyrchu a storio trydan carbon isel i wresogi a goleuo ein cartrefi neu deithio i'r gwaith ar fws trydan neu gar. Rydym ni eisiau gwneud ynni adnewyddadwy yn hygyrch ac yn fforddiadwy i bawb yng Nghymru, trawsnewid yr economi a chreu cyflogaeth gynaliadwy newydd.
4. Ac wrth wneud hynny, rydym ni eisiau gweithio gyda Llywodraeth Cymru, aelodau o'r Senedd a'r cymunedau maen nhw'n eu cynrychioli i sicrhau dyfodol lle mae sero net yn pweru ein bywydau.
5. Mae dadansoddiad annibynnol o'n cynlluniau ynni gwynt ar y tir, solar a batri yn nodi sut y bydd EDF Renewables yn:
 - Tyfu economi Cymru o £1bn¹
 - Buddsoddi dros £1.1bn yn uniongyrchol dros oes y prosiectau²
 - Darparu dros £100m mewn budd cymunedol
 - Creu a diogelu dros 2000 o swyddi llawn amser, medrus, â chyflog uchel mewn gweithrediadau, cynnal a chadw, adeiladu, ac ar draws cadwyn gyflenwi Cymru³
 - Pweru bron i 400,000 o gartrefi - ychydig yn llai na thraean o holl gartrefi Cymru⁴
 - Lleihau'r carbon a gynhyrchir o bron i 740,000 tonn⁵

¹ Bydd yr effeithiau ar Werth Ychwanegol Gros Cymru yn hwb o £962m, drwy effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol, £577m o ynni gwynt a £384m o ynni solar.

² Bydd y buddsoddiad uniongyrchol yn dod i gyfanswm o £1.17bn dros oes y cynlluniau hyn, o'r datblygiad cychwynnol i'w cau, gyda £706m mewn ynni gwynt a £470m mewn ynni solar.

³ Bydd cyfanswm o 1,315 o swyddi'n cael eu creu neu eu diogelu'n uniongyrchol yng Nghymru gan y cynlluniau arfaethedig gan godi i gyfanswm o 2,152 o swyddi o'r gadwyn gyflenwi drwy'r effaith lluosydd.

⁴ Bydd 1GW o ynni a gynhyrchir ar draws ynni gwynt ar y tir a solar yn pweru 397,173 o gartrefi yng Nghymru gan ddefnyddio modelu gan EDF-R. Yn ôl yr amcangyfrifon diweddaraf a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, cyfanswm y tai yng Nghymru ganol 2020 oedd 1.38 miliwn. ([Amcangyfrifon aelwydydd: canol-2020 | LLYW.CYMRU](#))

⁵ Bydd 1GW o ynni a gynhyrchir ar draws ynni gwynt ar y tir a solar yn lleihau carbon o 739,982 tonn gan ddefnyddio modelu o EDF-R. Bydd 500MW o gapasiti gwynt ar y tir yn lleihau cynhyrchu carbon o 523,567 tonn. Bydd 500MW o ynni solar yn lleihau cynhyrchu carbon o 216,415 tonn.



6. Mae'n amlwg bod ein gwaith yn rhoi cyfle gwych i Gymru ac rydym ni'n croesawu'r cyfle i gymryd rhan yng ngwaith rhagorol y Pwyllgor, i hybu eich amcanion a rhoi adborth ar ddatblygiad polisi a chyfeiriad y Llywodraeth.

Yr Ymateb i'r Gwaith Ymchwil Manwl

7. Nod ymarfer Gwaith Ymchwil Manwl Llywodraeth Cymru, a arweiniwyd gan y Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd, oedd nodi rhwystrau i gynyddu ynni adnewyddadwy'n sylweddol yng Nghymru a phennu'r camau i'w goresgyn.
8. Rydym ni'n ddiolchgar am y fenter hon gan y Dirprwy Weinidog, ac am awydd Llywodraeth Cymru i ddeall yr heriau y mae datblygwyr ynni adnewyddadwy yn eu hwynebu. Daeth EDF Renewables ynghyd gyda'r diwydiant i roi adborth i'r Dirprwy Weinidog ac rydym ni'n rhannu'r dyhead sydd ganddo i sicrhau bod pobl Cymru yn elwa'n uniongyrchol, yn economaidd ac yn gymdeithasol, ar ddatblygu ynni adnewyddadwy.
9. Rydym hefyd yn croesawu'r dogfennau ychwanegol a gyhoeddwyd yn ystod y misoedd diwethaf, gan gynnwys Cynllun Sero Net Cymru a'r bwriad i ymgynghori ar darged newydd o 100% o ynni adnewyddadwy erbyn 2035, fel yr amlinellwyd yn y Rhaglen Lywodraethu wedi'i diweddarau.
10. Yn wir, mae'r weledigaeth ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn gadarnhaol, ac mae llawer o waith yn cael ei wneud gan y Llywodraeth i nodi'r cyfeiriad y mae'n bwriadu i'r diwydiant symud iddo.
11. Fodd bynnag, mae rhai meysydd ac agweddau sylfaenol o hyd yr hoffem dynnu sylw atynt nad ydyn ni'n teimlo bod y Gwaith Ymchwil Manwl yn ei wneud. Rydym ni'n deall, heb eglurder wrth fynd i'r afael â'r rhain ar fyrder, y gallai'r targedau a'r dyheadau presennol gael eu tanseilio ac y gallai potensial Cymru gael ei anwybyddu.

Seilwaith grid a buddsoddiad

12. Ein pryder yw nad yw argymhellion y Gwaith Ymchwil Manwl ar seilwaith grid yn mynd yn ddigon pell i fynd i'r afael â'r rhwystr sylweddol y mae'r grid yn ei achosi ar gyfer datblygu.
13. Mae mynediad cyfyngedig a chapasiti seilwaith grid yn rhwystr sylfaenol ac allweddol i gyflawni sero net yng Nghymru. Ni all fod unrhyw gamargraff: heb fuddsoddiad angenrheidiol mewn seilwaith grid newydd, neu gynlluniau i uwchraddio'r seilwaith presennol yng Nghymru yn y tymor byr, ni fydd y datblygiad mewn ynni adnewyddadwy sydd ei angen i gyrraedd targedau 2030 a 2050 yn digwydd, heb sôn am dargen newydd yn 2035. Ni fydd datblygiad chwaith yn digwydd ar y cyflymder a'r raddfa ofynnol.
14. O'n safbwynt ni fel datblygwr, mae'r diffyg ffofws dwys ar ddatrys seilwaith grid yng Nghymru yn tanseilio llawer o'r mentrau a'r trafodaethau cadarnhaol a gafwyd drwy gydol y Gwaith Ymchwil Manwl. Er enghraifft, gallai'r potensial ar gyfer datblygu yn y Môr Celtaidd gyfrannu'n helaeth at uchelgeisiau Cymru. Ond heb osod neu atgyfnerthu grid, gellid diystyru terfynellau yng Nghymru o blaid Lloegr, gan beidio â chadw rhai o'r manteision cymdeithasol ac economaidd gwerthfawr yn ôl y disgwyl.

Cynllunio a chydysnio datblygiadau

15. Gan gysylltu â'r adran flaenorol, bydd angen i seilwaith grid newydd neu wedi'i uwchraddio fynd drwy awdurdodau cynllunio amrywiol a fydd yn cymryd amser. Ac i gyd-fynd â hyn, bydd angen i awdurdodau cynllunio hefyd ystyried ceisiadau am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy.
16. O ran ynni gwynt ar y tir, ynni gwynt ar y môr ac ynni adnewyddadwy arall ar y môr/morol, mae angen trefn gydsynio Gymreig gadarn ac iddi adnoddau da ac amserlenni clir ar gyfer gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o berygl o oedi yn y rhaglen ar gyfer prosiectau sy'n symud ymlaen yn llwyddiannus at gais CfD. Rydym ni'n croesawu'r adolygiad pen-i-ben o CNC ac yn falch o'r amserlenni a addawyd ar gyfer ei gyhoeddi.

Cynllun Ynni Cenedlaethol

17. Mae EDF Renewables yn pryderu am yr uchelgais a'r dull o gynhyrchu cynllun ynni cenedlaethol newydd erbyn 2024 a gaiff ei lywio gan gynlluniau lleol. Mae cynyddu cynlluniau ynni lleol, gyda dim ond prosiectau ar raddfa leol, yn annhebygol o gynhyrchu cynllun ynni cenedlaethol sy'n ymgorffori'r cynhyrchu ar raddfa fawr y bydd ei angen i gyflawni sero net.
18. Yr hyn nad yw'n cael ei gyfleu o gwbl yn y Gwaith Ymchwil Manwl na'r argymhellion yw graddfa ddigynsail y cynnydd yn y galw am drydan ym mhob senario sero net. Mae angen i'r Llywodraeth a rhanddeiliaid arfarnu'r cyfnod pontio yn unol â'r galw cynyddol am wefru cerbydau trydan, pypiau gwres a phrosesau diwydiannol, a'r ffaith y bydd sero net yn gofyn am y defnydd mwyaf posibl o'r adnoddau adnewyddadwy sydd ar gael, ble bynnag y bydd yr adnoddau adnewyddadwy hynny'n digwydd bod.

Strategaeth ac uchelgais

19. Rydym ni'n pryderu bod y Gwaith Ymchwil Manwl yn cyfyngu ar yr uchelgais i Gymru gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn unol â'i hanghenion.
20. Gyda'r galw yn y dyfodol i fod i gynyddu oherwydd gwefru cerbydau trydan, pypiau gwres a gofynion diwydiannol, mae'n debygol y bydd hyn yn fwy na chyflymder y defnydd o ynni adnewyddadwy.
21. Er ein bod yn llwyr werthfawrogi bod angen ystyried datblygu adnewyddadwy, yn gyfrifol ac yn unol â'r cymunedau lleol, byddai dull gweithredu cyfyngedig o'r fath yn cyfyngu ar dwf diwydiant allweddol yn y dyfodol a fydd yn rhoi enillion cymdeithasol ac economaidd enfawr i Gymru.
22. Ac nid yw'r dull hwn yn cyd-fynd â'r potensial enfawr sydd gan Gymru i allforio cynhyrchu ynni adnewyddadwy i weddill y DU, gan fanteisio ymhellach ar fudd cynhyrchu ynni adnewyddadwy a chwarae rhan yn y broses o ddatgarboneiddio'r DU.

Cynllun gweithredu sgiliau sero net

23. Fel yr amlinellwyd yn gynharach, bydd ein cynlluniau yng Nghymru yn sicrhau buddion a chyfleoedd economaidd enfawr i bobl Cymru. Ond mae hefyd budd cymdeithasol enfawr posibl i gymunedau cyfan ac unigolion.
24. Yn EDF Renewables, rydym ni'n rhoi ein cymunedau wrth wraidd ein cynlluniau. Rydym ni'n cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gwerth ein buddsoddiad mewn prosiectau o fudd uniongyrchol i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio gerllaw iddynt.
25. Mae ein prosiectau yng Nghymru yn cefnogi cymunedau'n uniongyrchol gyda brecwastau lleol i gwrdd â chyflenwyr lleol, ymgyrchoedd recriwtio a phrentisiaethau, ymgysylltu lleol â'n fforymau cronfa budd cymunedol, a phartneru ar brosiectau gyda sefydliadau addysg bellach lleol.
26. Rydym ni'n croesawu menter y Llywodraeth i ddatblygu cynllun gweithredu sgiliau sero net a byddwn yn darparu manylion ar sut y gall ein hesiamplau gefnogi datblygiad y polisi hwn.

Casgliad

27. Mae'r Gwaith Ymchwil Manwl yn gyfraniad pwysig i'w groesawu gan y Llywodraeth wrth osod cynlluniau i gyflawni sero net drwy weithio gyda datblygwyr ynni adnewyddadwy. Mae pethau cadarnhaol sy'n cynnwys y ffocws ar gadw cymaint o fuddion cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru ac i fusnesau a phobl Cymru, adolygiad pen-i-ben o CNC a'r cynllun gweithredu sgiliau sero net.
28. Ond rydym ni'n pryderu am y ffocws a'r uchelgais y mae'r Llywodraeth wedi'u hamlinellu yn yr argymhellion. Hoffem weld mwy o ffocws ar 'yma a nawr'.
29. Y grid yw'r rhwystr mawr, sylfaenol sy'n tanseilio llawer o'r argymhellion. Ac o ystyried y cynnydd yn y galw a'r defnydd yn y dyfodol, mae angen datrys y grid ar frys i ganiatáu ar gyfer capasiti, ac i'r defnydd o ynni adnewyddadwy gwrdd â'r angen hwn.
30. At hynny, nid oes unrhyw sôn gwirioneddol am botensial ynni gwynt ar y tir, ynni solar a storio batris i ddatblygu cymysgedd ynni llwyddiannus a dibynadwy yn y dyfodol. Mae cymysgedd o dechnolegau'n hanfodol a bydd yn sicrhau bod y buddion yn cael eu dal yng Nghymru, yn y dyfodol agos ac yn y tymor hwy.
31. Ac yn olaf, rydym ni'n pryderu bod y Gwaith Ymchwil Manwl yn gosod yr uchelgais i Gymru gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn unol â'i hanghenion hi yn unig. Mae hon yn senario bosibl o ddal i fyny'n barhaus, gyda'r galw'n debygol iawn o fod yn fwy na'r defnydd o ynni adnewyddadwy. Mae hefyd yn anffafriol i'r potensial enfawr sydd gan Gymru i ddod yn allforiwr net a'r buddion cymdeithasol ac economaidd enfawr y gall eu cyflawni yn y senario hwn.